# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 12.12.16

**Yn bresennol**:

Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Morgan, Angela Russell, Ann Williams, John Wyn Williams a RH Wyn Williams

Hefyd yn Bresennol: Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Croesawyd y Cynghorywr Anwen Davies a Dilwyn Morgan i'r Pwyllgor

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peter Read, Annwen Hughes, Louise Hughes, Tudor Owen a Elfed W. Williams

Adroddwyd bod y Cynghorydd Tudor Owen wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar a dymunwyd gwellhad buan iddo a phenderfynwyd anfon cerdyn iddo gan y Pwyllgor.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 20fed o Fehefin 2016 fel rhai cywir.

## 5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar

21.07.16, 09.08.16, 15.08.16, 24.08.16, 07.09.16 a 31.10.16

Amlygwyd bod nifer o wrthwynebidau wedi eu derbyn ar gyfer gwrnadawiadau 07.09.16 a 31.10.16 ond nad oedd unrhyw un o'r gwrthwynebwyr wedi troi i fyny i'r is bwyllgorau. Mewn ymateb, nododd y cyfriethiwr bod y sylw wedi ei gynnwys fel rhan o'r rhesymau swyddogol dros y penderfyniad yn y cofnod.

## 6. DIWEDDARIAD AR Y POLISI HAPCHWARAE / GAMBLO

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu yn amlygu bod y Polisi Hapchwarae / Gamblo wedi ei ddiweddaru gan nodi ei fod yn amlygu blaenoraethau y Cyngor. Adroddwyd bod angen i gynghorua eraill Gogledd Cymru gwblhau ei polisiau hwy er mwyn sicrahu bod cynghorua y Gogledd yn mynd i'r un cyfeiriad er mwyn sicrhau cysondeb. Unwaith bydd y polisiau wedi eu cysoni, bydd y polisiau yn mynd allan am gyfnod ymgynghori.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:50am a daeth i ben am 11:10am